Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Ein cyf/Our ref MA(P)/KW/24621/19

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales

11 Gorffennaf 2019

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas ag addysg yn y cartref. Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i roi diweddariad i'r pwyllgor ar y datblygiadau a'r amserlenni ar gyfer y dyfodol.

Prif amcan ein polisi o ran y dull hwn yw helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas a chymryd camau priodol i unioni'r sefyllfa hon. Wrth ddatblygu'r canllawiau statudol newydd mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynnal nifer o egwyddorion sylfaenol. Un o'r egwyddorion pwysicaf yw hawliau'r plentyn i gael ei glywed ac i fod yn ddiogel.

Canllawiau statudol

Rwy'n falch o gadarnhau bod canllawiau statudol drafft newydd wedi'u datblygu ac mae hyn yn cynrychioli newid sylweddol o ran yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau statudol yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod plant yn cael addysg addas. Yn ogystal ag egluro nodweddion addysg addas, mae'r canllawiau statudol yn atgyfnerthu'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol eu defnyddio pan na ddarperir addysg addas. Mae'r canllawiau statudol hefyd yn egluro'r cymorth y gallai awdurdodau lleol ei gynnig i addysgwyr yn y cartref yn eu hardaloedd.

Rwyf eisoes wedi nodi nad wyf yn credu y gellid gwneud penderfyniad hyddysg o ran p'un a yw plentyn yn cael addysg addas heb weld y plentyn. Mae'r canllawiau statudol drafft yn adlewyrchu'r farn hon ac yn rhoi cyngor manylach o lawer i awdurdodau lleol ar asesu addasrwydd addysg i blant a addysgir yn y cartref.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth ddatblygu'r canllawiau, mae fy swyddogion wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn sicrhau eu bod mor gynhwysfawr ac effeithiol â phosibl i awdurdodau lleol cyn cynnal yr ymgynghoriad. Drwy gydol y broses hon, mae'r swyddogion wedi ymgysylltu â 22 o awdurdodau lleol i ofyn am eu sylwadau ar y canllawiau gan sicrhau eu bod wedi'u datblygu â dealltwriaeth o oblygiadau ymarferol eu gweithredu.

Mae'r swyddogion hefyd wedi ymgysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau. Mae'r trafodaethau wedi canolbwyntio ar dri phrawf y Comisiynydd. Mae fy swyddogion wedi gwneud pob ymdrech resymol i ystyried safbwyntiau ac adborth y Comisiynydd, ac rwy'n hyderus bod y canllawiau statudol drafft wedi'u llywio gan ddull sy'n canolbwyntio ar hawliau plant.

Rwy'n ymwybodol o bryderon y Comisiynydd am gyflymder gweithredu'r cynigion hyn. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod y maes hwn yn gymhleth. Rwy'n cydnabod yn llawn ei bod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i ddatblygu'r canllawiau a'r rheoliadau, ond mae rheswm da dros hyn. Mae ôl-effeithiau peidio â chael hyn yn iawn i awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn rhy ddifrifol, ac felly rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Fel y gwyddoch, mae eu dyfynnu ar sawl fersiwn ddrafft o'r canllawiau yn cymryd amser. Rwy'n hyderus bod ein canllawiau drafft yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol yn fwy manwl nag unrhyw wlad arall yn y DU; rydym wedi ymroi amser ac ymdrech i ystyried goblygiadau a chanlyniadau anfwriadol posibl y newid sylweddol hwn o ran yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol. Mae fy swyddogion wedi cwblhau'r holl asesiadau angenrheidiol a phriodol, gan gynnwys asesiad effaith integredig manwl, y mae asesiad o'r effaith ar hawliau'r plant yn rhan allweddol ohono.

Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi costau arferion gweinyddol cyfredol ledled Cymru, ac i ystyried y costau posibl yn y dyfodol o ganlyniad i'r canllawiau statudol newydd a disgwyliadau newydd sydd ar awdurdodau lleol. Bydd hyn yn llywio'r asesiad effaith rheoleiddiol a gyhoeddir ar y cyd â fersiwn derfynol y canllawiau a'r Rheoliadau.

Llawlyfr i addysgwyr yn y cartref

Mae'r swyddogion hefyd wedi datblygu llawlyfr i addysgwyr yn y cartref; nid oedd hyn yn rhan o'r cynigion gwreiddiol. Fodd bynnag, cafodd ei ddatblygu gan fod nifer o wasanaethau iechyd, gofal a chymorth cyffredinol a gwasanaethau ieuenctid yn cael eu hwyluso drwy'r ysgol, gan olygu nad yw rhai plant a addysgir yn y cartref na'u teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau a'u bod o bosibl yn colli'r cyfle i fanteisio ar fentrau a gwasanaethau allweddol.

Mae'r llawlyfr yn adnodd cynhwysfawr i'r rheini sydd eisoes yn cael eu haddysgu yn y cartref neu a allai fod yn ystyried addysg yn y cartref. Mae'n dwyn ynghyd amrywiaeth o wybodaeth a dolenni sy'n arwain at wybodaeth a fydd o ddiddordeb i addysgwyr yn y cartref. Mae fy swyddogion wedi ymgysylltu ag addysgwyr yn y cartref wrth ddatblygu'r llawlyfr, gan geisio sicrhau y caiff ei ysgrifennu gan ystyried anghenion plant a'i fod yn amlinellu goblygiadau'r canllawiau statudol newydd i addysgwyr yn y cartref.

Cronfa Ddata

Caiff ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft i awdurdodau lleol ynglŷn â'r gronfa ddata a'r broses o rannu gwybodaeth rhwng byrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol ei gynnal ar wahân. Y rheswm dros hyn yw bod y swyddogion yn cynnal ymarfer cwmpasu cynhwysfawr gydag awdurdodau lleol, ysgolion annibynnol a chynrychiolwyr byrddau iechyd lleol. Rydym am sicrhau bod y gronfa ddata mor gynhwysfawr â phosibl ond hefyd y caiff ei datblygu

mewn ffordd sy'n ei galluogi i ddefnyddio'r llwyfannau data presennol lle y bo'n briodol ac nad yw'n rhoi baich gweinyddol anghymesur ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol. Mae'r gwaith hwn yn fanwl, ac yn ystyried nid yn unig y systemau sydd eisoes yn bodoli, ond hefyd sail gyfreithiol systemau presennol a ph'un a ellir eu defnyddio, ynghyd â'r newidiadau y bydd angen i ni eu gwneud i reoliadau o bosibl er mwyn sicrhau y caiff y systemau hyn eu rhoi ar waith yn gyfreithiol, os cânt eu defnyddio. Caiff y gwaith cwmpasu ei gwblhau erbyn canol mis Awst a disgwylir i ymgynghoriad technegol ar y gronfa ddata gael ei gynnal ym mis Tachwedd. Yn hytrach nag oedi'r ymgynghoriad ar y canllawiau i gyd-fynd â'r rheoliadau, na fyddant yn barod tan fis Tachwedd fel y nodir uchod, credaf y byddai'n fuddiol cynnal ymgynghoriad ar y canllawiau yn hwyrach y mis hwn, gan y bydd yn denu mwy o gynulleidfa na'r rheoliadau, sy'n fater technegol na fydd yn cael effaith mor uniongyrchol ar deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref o gymharu â'r canllawiau newydd.

Y camau nesaf

Bydd yr ymgynghoriad ar y canllawiau statudol drafft a'r llawlyfr i addysgwyr yn y cartref yn dechrau ar 29 Gorffennaf am 12 wythnos. Caiff cyfres o ddigwyddiadau eu cynnal ledled Cymru i gasglu barn rhanddeiliaid gan gynnwys plant a phobl ifanc a addysgir yn y cartref.

Disgwylir i'r ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ddechrau ym mis Tachwedd eleni. Bydd yn ymgynghoriad byrrach yn sgil ei natur dechnegol ac felly caiff ei gynnal am 8 wythnos.

Bwriedir i'r canllawiau a'r rheoliadau statudol ddod i rym ym mis Mai 2020.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education